

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 16 Medi 2016

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD IAU, 22 MEDI 2016** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Ffordd Churton, Y Rhyl.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 20)

Derbyn -

(a) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016 (copi wedi'i amgáu), a

(b) chofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 (copi wedi'i amgáu).

5 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD (Tudalennau 21 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn hysbysu aelodau o'r cynnydd mewn perthynas ag adolygiad o bolisi presennol masnachu ar y stryd yn Sir Ddinbych.

6 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU (Tudalennau 37 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w gymeradwyo.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

7 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/1594/TXJDR (Tudalennau 39 - 78)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 15/1594/TXJDR.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Cefyn Williams (Cadeirydd)

Huw Williams (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield

Barry Mellor

Bill Cowie

Merfyn Parry

Meirick Davies

Pete Prendergast

Stuart Davies

David Simmons

Hugh Irving

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

**PWYLLGOR TRWYDDEDU
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

CAM	DISGRIFIAD
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
6.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
10.	Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol. DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.

11.	Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.
12.	Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.
13.	Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.
14.	Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.
15.	Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).
16.	Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan: 1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. 2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.
17.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.
18.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 8 Mehefin 2016 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Stuart Davies, Hugh Irving, Barry Mellor, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Cefyn Williams a Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Pen Gyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (HB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

Mynychodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW) fel Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor ar gyfer eitem 9.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd David Simmons,

Dywedodd y Cynghorwyr Joan Butterfield a Huw Williams y byddent yn gadael yn gynnar i fynychu cyfarfod y Panel Penodiadau.

2 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2016/17.

Cynigiodd y Cynghorydd Bill Cowie y dylid penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Cynigiodd y Cynghorydd Hugh Irving y dylid penodi'r Cynghorydd Huw Williams yn Gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Merfyn Parry. O'i roi i'r bleidlais -

PENDERFYNWYD - y dylid penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2016/17.

Cynigiodd y Cynghorydd Hugh Irving y dylid penodi'r Cynghorydd Huw Williams yn Is-Gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Pete Prendergast. Wedi hynny –

PENDERFYNWYD - y dylid penodi'r Cynghorydd Huw Williams fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.

4 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016, a'r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2016.

PENDERFYNWYD *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016 a 24 Mawrth 2016 fel cofnod cywir.*

[Yn y fan hon, gadawodd y Cyngorydd Huw Williams y cyfarfod.]

Yn y fan hon, cytunwyd i amrywio trefn y rhaglen i ddarparu ar gyfer unigolion a oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriadig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

7 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/1124/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeedig) i adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 15/1124/TXJDR.

Darllenodd y Cyfreithiwr gais ohriad ar ran y Gyrrwr dan sylw o ganlyniad i dderbyn y dogfennau angenrheidiol yn hwyr, ac o gofio nad oedd ei gynrychiolydd wedi gallu bod yn bresennol. Er budd cyfiawnder naturiol, penderfynodd aelodau ganiatáu'r cais i ohirio. Cafwyd peth trafodaeth ynghylch a ddylid gohirio'r mater i gyfarfod nesaf y pwyllgor, neu i alw cyfarfod arbennig i glywed yr achos. O'i roi i'r bleidlais -

PENDERFYNWYD *gohirio ystyried addaswydd Gyrrwr Rhif 15/1124/TXJDR i ddal trwydded gyrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Trwyddedu, sydd i'w alw cyn gynted ag y bo'n ymarferol.*

[Yn y fan hon, gadawodd y Cyngorydd Joan Butterfield y cyfarfod.]

8 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 16/0374/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 16/0374/TXJDR am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yng ngoleuni'r collfarnau a ddatguddiwyd yn dilyn datgeliad manwl i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd rhwng 1986 a 2007, gyda'r rhan fwyaf heb eu datgelu gan yr Ymgeisydd;
- (iii) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, ac
- (iv) estyn gwahoddiad i'r Gyrrwr ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnu'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

Eglurodd yr Ymgeisydd ei reswm dros beidio â datgelu euogfarnau hanesyddol heb unrhyw fwriad i gamarwain. Rhoddodd rywfaint o gyd-destun i'r euogfarnau hynny ac roedd yn edifar yn fawr am ei orffennol. Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at ei amgylchiadau a chyfrifoldebau personol cyfredol, a sut mae ei fywyd wedi newid. Cafwyd tystlythyrau a oedd yn dyst o'i gymeriad da a rhoddodd sicrwydd pellach i'r aelodau ynglŷn a'i ymddygiad cyfredol a'r dyfodol. Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau'r aelodau ynghylch natur ei euogfarnau, ei ffordd o fyw ar hyn o bryd ac amgylchiadau sydd wedi newid, a'i hanes cyflogaeth. Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, ategodd faint roedd ei fywyd wedi newid dros y degawd diwethaf, yn destament i'w gymeriad da cyfredol.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

PHENDERFYNWYD bod y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif 16/0374/TXJDR yn cael ei ganiatáu, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr aelodau wedi cymryd i ystyriaeth fod yr euogfarnau'n hanesyddol yn bennaf, ac fe dderbyniwyd yr eglurhad a roddwyd gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r euogfarnau hynny. Roedd yr Aelodau hefyd yn meddwl bod yr Ymgeisydd wir yn edifar am ei orffennol ac wrth ymateb i'w cwestiynau. Y farn oedd bod yr Ymgeisydd wedi dangos, drwy ei anerchiad i'r pwyllgor a'i dystlythyr ysgrifenedig, ei fod wedi newid ei ffordd o fyw ac roedd ganddo gymeriad da. O ganlyniad, cafwyd bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Fodd bynnag, o ystyried ei euogfarnau hanesyddol, fe'i hystyriwyd yn briodol hefyd ar ran yr Ymgeisydd i roi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

Yn y fan hon (10.25 am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

9 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 15/1446/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 15/1446/TXJDR am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) swyddogion wedi gwrthod y cais o dan bwerau dirprwyedig ar ôl ystyried yr euogfarnau a ddatgelwyd a pholisi euogfarnau'r Cyngor;
- (iii) yr Ymgeisydd wedi apelio ar ôl hynny yn erbyn penderfyniad y swyddogion i'r Llys Ynadon, lle daethpwyd i gytundeb wedi hynny y byddai'r apêl yn dod i ben a bod y cais yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer penderfyniad;
- (iv) manylion yr euogfarnau a ddatgelwyd yn dilyn y datgeliad manylach i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghyd â pholisi'r Cyngor o ran perthnasedd euogfarnau, ac
- (v) estyn gwahoddiad i'r Gyrrwr ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'i Gynrychiolwyr Cyfreithiol a gadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

Amlygodd Cynrychiolydd Cyfreithiol yr Ymgeisydd rai gwallau ffeithiol yn yr adroddiad a rhoddwyd rhywfaint o gefndir y cais a sut yr oedd wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer penderfyniad, gan gynnwys cyfeiriad at yr achos yn Llys yr Ynadon ar apêl. Wrth gyflwyno achos yr Ymgeisydd, cyfeiriodd at ei gofnod di-fai blaenorol fel gyrrwr trwyddedig, a'i gymhwysedd wrth ddelio â'r cyhoedd. Roedd y mater i'w ystyried yn ymwneud â'r euogfarn mwyaf diweddar ac fe ymhelaethodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol ar amgylchiadau'r drosedd honno a'i chyd-destun ym mholisi trwyddedu'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau. Fe ddadlodd hefyd, er ei fod yn ddifrifol, nid oedd yr euogfarn yn yr achos hwn yn cael effaith ar ddiogelwch y cyhoedd, wrth ystyried a oedd yr Ymgeisydd yn addas a phriodol i ddal trwydded. Ychwanegodd nad oedd y drefn drwyddedu wedi'i chynllunio i gosbi eto, ac roedd yr Ymgeisydd eisoes wedi talu ei gosb i gymdeithas yn hynny o beth. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y tystlythyrau ysgrifenedig a roddwyd (a gylchredwyd yn y cyfarfod), a oedd yn tystio i gymeriad

yr Ymgeisydd a'i ddiwyllledd. I gloi, cafodd ei gyflwyno bod yr Ymgeisydd wedi gwneud camgymeriad ofnadwy ac wedi gwneud iawn amdano, ac roedd yn dymuno dychwelyd i'w broffesiwn fel gyrrwr trwyddedig.

Ymatebodd yr Ymgeisydd a'i Gynrychiolydd Cyfreithiol i gwestiynau'r aelodau ynghylch amgylchiadau'r achos a'r euogfarn dilynol, ynghyd â chysylltiad yr Ymgeisydd ag eraill a oedd yn ymwneud â gweithgarwch troseddol. Ymatebodd yr Ymgeisydd hefyd i sicrwydd a geisiwyd gan y pwyllgor ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol o ystyried natur a difrifoldeb y drosedd. Wrth wneud datganiad terfynol, esboniodd yr Ymgeisydd sut roedd yr euogfarn wedi difetha ei fywyd, a'i awydd i ddychwelyd fel gyrrwr trwyddedig.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

PHENDERFYNWYD bod y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif 15/1446/TXJDR yn cael ei wrthod.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr aelodau wedi gwrandao'n ofalus iawn ar yr holl gyflwyniadau yn yr achos hwn a'r atebion i gwestiynau, ac wedi ystyried y tystlythyrau a roddwyd yn ofalus. Roedd y pwyllgor yn glir mai diben eu penderfyniad oedd delio â'r mater trwyddedu ac i beidio â rhoi mwy o gosb i'r Ymgeisydd yn sgil y drosedd. Derbyniwyd nad oedd yr Ymgeisydd wedi bod mewn helynt pellach ac nid oedd ganddo unrhyw euogfarnau pellach ers iddo gael ei ryddhau. Fodd bynnag, ystyriaeth hollbwysig y pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd, ac o dan y gyfraith, ni ellir rhoi trwydded oni fodlonir bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol.

Roedd y pwyllgor â phryderon o ystyried natur a difrifoldeb y trosedd a gyflawnwyd yn 2010 wrth weithredu fel gyrrwr trwyddedig, gan ddefnyddio cerbyd trwyddedig, a heb glywed digon i'w bodloni ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Wrth ddod i benderfyniad, roedd yr aelodau'n ystyried y polisi trwyddedu - nod y polisi yw amddiffyn diogelwch y cyhoedd, bod person yn berson addas a phriodol, nad oedd y person yn fygythiad i'r cyhoedd a bod y cyhoedd â hyder yn y defnydd o gerbydau trwyddedig. Wrth bwysu a mesur y cyfrifoldeb i'r cyhoedd yn erbyn y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd, nid oedd y pwyllgor yn fodlon ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu felly i'r Gyrrwr a'i Gynrychiolwyr Cyfreithiol, a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod.

[Yn y fan hon, gadawodd y Cynghorwyr Barry Mellor, Pete Prendergast ac Arwel Roberts y cyfarfod.]

10 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/1567/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

- (i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 15/1567/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn erlyniadau a ddygwyd gan awdurdod lleol cyfagos yn ymwneud â throseddau cerbydau hacni;
- (ii) manylion ynghylch amgylchiadau'r achos wedi'u rhoi, yn cynnwys canlyniad yr erlyniad (roedd crynodeb o ffeithiau ynghyd â datganiadau tyst cysylltiedig ynghlwm wrth yr adroddiad);
- (iii) roedd y Gyrrwr wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Trwyddedu o'r blaen ar 24 Medi 2014, a chanlyniad yr achos hwnnw, a
- (iv) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded, ac i ateb cwestiynau'r aelodau ynglŷn â hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'i Gynrychiolydd Cyfreithiol, a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol ffeithiau'r achos.

Ymhelaethodd Cynrychiolydd Cyfreithiol y Gyrrwr ar amgylchiadau'r achos a'r canlyniad ar ôl bod yn y Llys Ynadon. Roedd y Gyrrwr wedi pledio'n euog i'r drosedd heb ei benderfynu, ac wedi cael ei gosbi. Roedd yn yrrwr tacsï a oedd wedi gwasanaethu'n hir, ac roedd wir yn edifar am y digwyddiad. Roedd tystlythyrau ysgrifenedig wedi cael eu rhoi (a gylchredwyd yn y cyfarfod) a oedd yn dyst i'w gymeriad da. O ystyried amgylchiadau'r achos penodol hwn, fe wnaeth y Cynrychiolydd Cyfreithiol ddadlau fod y Gyrrwr yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, ymhelaethodd y Gyrrwr ar amgylchiadau'r digwyddiad. Wrth wneud datganiad terfynol, ychwanegodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol ei fod yn amlwg nad oedd y Gyrrwr wedi bwriadu cyflawni'r drosedd, gan ddadlau nad oedd yr euogfarn yn warant i atal neu ddirymu.

Ar y pwynt hwn, gohiriodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

PENDERFYNWYD rhoi rhybudd ffurfiol i Yrrwr Rhif 15/1567/TXJDR ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a'r camau lliniaru a gyflwynwyd gan y Gyrrwr, a'i ymateb i gwestiynau. Derbyniodd y pwyllgor fersiwn y Gyrrwr o ddigwyddiadau ac roeddent yn meddwl ei fod wir yn edifar am y digwyddiad. Fodd bynnag, o ystyried natur yr euogfarn, fe'i hystyriwyd yn briodol i roi rhybudd ffurfiol.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr a'i Gynrychiolydd Cyfreithiol.

Yn y fan hon (1.10pm) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

11 CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais a ddaeth i law am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;
- (ii) nid oedd swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais, gan nad oedd y cerbyd a gyflwynwyd ar gyfer trwyddedu'n cydymffurfio â'r fanyleb, fel y manylir yn Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor, ac
- (iii) estyn gwahoddiad i'r Gyrrwr ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i gyflwyno'r cerbyd i'r aelodau ei archwilio.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad a gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried a fyddai'n briodol i wyro oddi wrth bolisi'r Cyngor ynglŷn â manylebau cerbydau, er mwyn caniatáu'r cais fel y gwnaed cais amdano.

Dywedodd yr Ymgeisydd bod gan y cerbyd dan sylw filltiredd isel iawn o ystyried ei oedran ac roedd mewn cyflwr rhagorol. Yn dilyn pleidlais, gohiriwyd y cyfarfod er mwyn galluogi'r aelodau i weld y cerbyd a gyflwynwyd i'w drwyddedu. Wedi ailddechrau'r trafodion, ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau ynghylch rhinweddau trwyddedu'r cerbyd o ystyried ei gyflwr perffaith, a'i fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Nodwyd nad oedd y cerbyd yn addas ar gyfer trwyddedu fel cerbyd hacni o ystyried y mesuriadau clirio rhwng seddi, ond roedd hurio preifat yn opsiwn. Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â chyflwr strwythurol y cerbyd, dywedodd y Peiriannydd Cydymffurfiaeth Fflyd fod cerbydau trwyddedig angen prawf MOT sylfaenol a phrawf Cydymffurfio bob chwe mis, a dylid eu cynnal yn briodol. Darparodd yr Ymgeisydd sicrwydd ynghylch trefn cynnal a chadw'r cerbydau. Atgoffwyd yr aelodau bod rhaid i bob cais gael ei drin yn ôl ei rinweddau ei hun.

Yn y fan hon, cafodd y pwyllgor egwyl i ystyried yr achos a -

PHENDERFYNWYD bod y cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat yn cael ei ganiatáu.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau'n ystyried bod y cerbyd mewn cyflwr eithriadol o dda ac yn briodol i'w drwyddedu, a phenderfynwyd caniatáu'r drwydded.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

SESIWN AGORED

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

12 POLISI ARFAETHEDIG CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn rhoi gwybod i aelodau am ganlyniad ymgynghoriad y Polisi Arfaethedig Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Roedd manylion y cyfnod ymgynghori o wyth wythnos wedi'u rhoi ynghyd â sylwadau a ddaeth i law; roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn bositif gydag ychydig iawn o feysydd dadleuol. Gan gymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd nifer o ddewisiadau wedi eu cynnig i'r aelodau ystyried ymhellach, a oedd yn Atodiad D y prif adroddiad.

Trafododd yr Aelodau pob un o'r meysydd hynny o'r polisi fel a ganlyn -

(1) Amodiad Lliw Cerbydau Hacni

Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn cefnogi'r cynnig yn llawn i osod amodiad lliw, gan ddweud bod dull o'r fath yn gweithio'n dda mewn gwledydd eraill ac wedi gwella strydun cyfan. Gan ystyried yr amheuan a fynegwyd ynghylch amodiad lliw du, awgrymodd bod lliw arall yn cael ei ystyried. Yn ystod y ddadl nid oedd llawer o gefnogaeth gan aelodau eraill i osod gofyniad lliw, yn enwedig o ystyried y gost o weithredu amod o'r fath ac a ddylai'r gost yna ddisgyn ar yr awdurdod lleol neu'r perchennog cerbyd hacni. Barnwyd y byddai'n well gwario'r arian ar sicrhau diogelwch teithwyr, gan gynnwys cynnal a chadw cerbydau. O'i roi i'r bleidlais, cytunwyd y gellid dileu'r amod lliw arfaethedig ar gyfer cerbydau hacni.

(2) Oedran Cerbydau Trwyddedig sy'n newydd i fflyd

O ystyried dyfodiad technoleg newydd a gwarantau estynedig ar gyfer cerbydau, cytunwyd i gefnogi'r cynnig i gynyddu'r terfyn oedran ar gyfer cerbydau sy'n newydd i fflyd i bwrpas cerbydau hacni i 5 mlynedd (yn unol â cherbydau hurio preifat).

(3) Uchafswm Oed i Gerbydau Trwyddedig mewn fflyd

Ystyriwyd rhinweddau gosod uchafswm terfyn oedran. Yn sgil trefn MOT rheolaidd a Phrawf Cydymffurfio ar gyfer cerbydau trwyddedig, cytunwyd i gadw'r cynnig o derfyn oedran 10 mlynedd ar gyfer cerbydau hacni, a therfyn oedran 12 mlynedd i gerbydau hurio preifat.

(4) Trelars

Cytunodd yr Aelodau bod gwerth caniatáu trelars ar gyfer cerbydau hurio preifat, yn enwedig ar gyfer cludo bagiau yn ystod teithiau maes awyr, pan roedd y pris wedi cael ei archebu ymlaen llaw a'r angen am drelar yn hysbys. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y defnydd o drelars gan gerbydau hacni yn amhriodol ar safle tacsî. Hefyd trafodwyd y mater o hyfforddi gyrwyr a chytunwyd i ystyried derbyn trelars ar gyfer cerbydau hurio preifat yn unig, a hefyd i ystyried a fyddai angen hyfforddiant

perthnasol ar gyfer y gyrrwyr hynny wedi'u heithrio ar hyn o bryd rhag angen pasio hawliad trelar gyrrwr y DVLA.

(5) Yn hygyrch i gadeiriau olwyn

Nododd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o dacsis a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ac wrth nodi rhinweddau i bennu bod hygyrchedd i gadeiriau olwyn yn amod, teimlai'r aelodau cyffredinol y byddai gofyniad o'r fath yn rhy gyfyngol. O ganlyniad, cytunwyd i beidio â chefnogi'r cynnig i bob cerbyd hacni fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Tynnodd y Swyddog Trwyddedu sylw'r aelodau at sylwadau hwyr a dderbyniwyd mewn ymateb i'r adolygiad polisi cerbyd a oedd wedi ei gylchredeg i aelodau'r diwrnod blaenorol. Cytunodd yr Aelodau y dylid delio â'r sylwadau hwyr hynny fel rhan o'r cam ymgynghori nesaf. Cyfeiriodd y Rheolwr Trafnidiaeth i Deithwyr at ei sylwadau ysgrifenedig a thynnodd sylw at y ffaith y gallai unrhyw newidiadau i'r polisi presennol effeithio ar y gyllideb cludiant ysgol.

PENDERFYNWYD -

- (a) newid y polisi arfaethedig i adlewyrchu'r newidiadau fel y trafodwyd ac y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, a*
- (b) rhoi cyfarwyddyd i swyddogion ymgynghori ymhellach gyda phartïon sydd â diddordeb ac i gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn fersiwn olaf y polisi a fydd yn cael eu cyflwyno yn un o gyfarfodydd y Cyngor Sir yn y dyfodol.*

13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2016.

PENDERFYNWYD cymeradwyo rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 23 Mehefin 2016 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Hugh Irving, Barry Mellor, Arwel Roberts, David Simmons and Cefyn Williams (Cadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Pen Gyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Gorfodi Trwyddedu (HB) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Merfyn Parry, Pete Prendergast a Huw Williams

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryn.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

4 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/1124/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

- (i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 15/1124/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn cronni 40 o bwyntiau cosb o dan gynllun pwyntiau cosb y Cyngor am gyflwyno cerbyd trwyddedig i'w brofi mewn cyflwr anniogel a pheryglus ddwywaith;
- (ii) roedd y Gyrrwr wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Trwyddedu ar 10 Mehefin 2015 yn dilyn cronniad o 20 pwynt cosb ar gyfer cyflwyno cerbyd trwyddedig i'w brofi mewn cyflwr anniogel a pheryglus, a oedd wedi arwain at ataliad dros dro o bythefnos;

- (iii) Roedd manylion y diffygion a nodwyd yn dilyn cyflwyno'r cerbyd am brawf Cydymffurfio/MOT ym mis Ebrill 2016 a chyhoeddi 20 o bwyntiau cosb ychwanegol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â datganiadau tyst a dogfennau cysylltiedig;
- (iv) roedd y Gyrrwr wedi cyflwyno tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded gan gynnwys Prawf MOT/Tystysgrif Cydymffurfio ar gyfer y cerbyd dyddiedig 19 Mai 2016, ynghyd â llythyr i apelio yn erbyn y pwyntiau cosb (gwrthodwyd yr apêl gan swyddogion ar ôl hynny), a
- (v) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded, ac i ateb cwestiynau'r aelodau ynglŷn â hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol a daeth ei Gynrychiolydd Undeb gydag o. Cadarnhaodd y Cynrychiolydd Undeb dderbyn yr adroddiad a'r gweithdrefnau pwyllgor.

Amlinellodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu yr achos fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad. Er na chafodd y cerbyd ei gyflwyno ar gyfer ail brawf ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, hysbyswyd yr aelodau bod y cerbyd wedi pasio Prawf MOT/Tystysgrif Cydymffurfio wedi hynny ar 19 Mai 2016.

Cyflwynodd y Cynrychiolydd Undeb achos y Gyrrwr gan ddadlau ei fod wedi mynd ati i ofyn am arweiniad a sicrwydd ynglŷn â chyflwr y cerbyd. Cyflwynwyd y cerbyd ar gyfer prawf MOT ar 4 Ebrill 2016, a chafodd gwaith atgyweirio ei wneud a arweiniodd at gyhoeddi Tystysgrif MOT ar 13 Ebrill 2016. Methodd y cerbyd yr MOT a'r Dystysgrif Gydymffurfiaeth wedi hynny yng Ngorsaf Brofi Ddynodedig y Cyngor ar 14 Ebrill 2016 gyda gwahaniaeth clir ym marn y ddau archwiliwr cerbyd. Ceisiodd y Cynrychiolydd Undeb dynnu sylw at nifer o anghysondebau yn yr adroddiad a chwestiynu'r LEO yn hynny o beth. Mewn ymateb, eglurodd y LEO faint ei ran yn yr ymchwiliad a'i ddibyniaeth ar y dystiolaeth ddogfennol a'r datganiad a ddarparwyd gan y Peiriannydd Cydymffurfiaeth a oedd wedi cynnal y prawf ar 14 Ebrill 2016, a ddangosodd fod y cerbyd wedi cael ei gyflwyno ar gyfer prawf mewn cyflwr anniogel, peryglus a gwael. O ran ymddygiad y gyrrwr, dywedodd y Cynrychiolydd Undeb ei fod wedi gweithredu'n ddidwyll wrth gyflwyno'r cerbyd i'w archwilio ar 14 Ebrill 2016, o ystyried ei fod wedi pasio Prawf MOT y diwrnod cynt. Roedd y Gyrrwr wedi cyflwyno nifer o dderbynebau ac anfonebau (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i ddangos y gwaith trwsio'r cerbyd a oedd wedi cael ei wneud. Cyfeiriwyd hefyd at nifer o ddiffygion na chawsant eu trin yn gyson yn ystod cyfundrefnau profi blaenorol. Amlygwyd y gwahaniaethau rhwng yr addasrwydd mecanyddol fel y dangosir gan y Prawf MOT a gofynion y Prawf Cydymffurfio hefyd. Mynegwyd pryderon hefyd gan y Cynrychiolydd Undeb ynghylch y derminoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad wrth ystyried p'un a yw'r Gyrrwr yn addas a phriodol i ddal trwydded. Eglurodd yr Aelodau y rhesymeg y tu ôl i'r defnydd o'r ymadrodd safonol wrth benderfynu ar addasrwydd. Wrth gloi ei gyflwyniad, dadleuodd y Cynrychiolydd Undeb fod y Gyrrwr wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod ei gerbyd yn cydymffurfio pan gafodd ei gyflwyno ar gyfer prawf ar 14 Ebrill a'i bod yn amlwg nad oedd yn berygl i'r cyhoedd.

Cymerodd yr Aelodau y cyfle i holi'r Gyrrwr a'i Gynrychiolydd Undeb ar eu cyflwyniad a ffeithiau'r achos fel y cawsant eu cyflwyno. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch diffygion penodol sydd wedi eu nodi a'r camau a gymerwyd gan y Gyrrwr i sicrhau bod y cerbyd yn addas i'r diben ar gyfer cludo aelodau o'r cyhoedd ynghyd â chwestiynau ynglŷn â'i ddefnydd cyffredinol. Gofynnwyd am sicrwydd hefyd ynglŷn gwersi a ddysgwyd o'r adeg pan y Gyrrwr wedi bod yn olaf cyn y pwyllgor ym mis Mehefin 2015. Ymatebodd y Gyrrwr ei fod wedi cyflwyno ei gerbyd ar gyfer prawf MOT yn gynharach er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion sy'n weddill cyn ei gyflwyno am Brawf MOT/Cydymffurfriad yng Ngorsaf Brofi Ddynodedig y Cyngor.

Cymerodd y Cynrychiolydd Undeb y cyfle i wneud datganiad terfynol. Dywedodd fod y Gyrrwr wedi ceisio bod yn ofalus drwy gyflwyno'r cerbyd ar gyfer prawf MOT ymlaen llaw ac wedi sicrhau bod gwaith atgyweirio yn cael ei gynnal, a oedd yn golygu bod y cerbyd yn pasio'r Prawf MOT ar 13 Ebrill 2016. Roedd yn dadlau ei bod yn rhesymol i'r gyrrwr feddwl bod y cerbyd yn cydymffurfio wrth gyflwyno'r un fath ar gyfer Prawf MOT/Cydymffurfriad y diwrnod canlynol.

Ar y pwynt hwn, gohiriodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

PENDERFYNWYD *diddymu trwydded yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gyrrwr rhif 15/1124/TXJDR ar sail diogelwch y cyhoedd ar unwaith.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried yn ofalus cynnwys yr adroddiad a'r sylwadau a gyflwynwyd gan y Gyrrwr yn yr achos hwn a'i ymateb i gwestiynau.

Nid oedd y pwyllgor yn ystyried bod y Gyrrwr yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded a phenderfynwyd diddymu'r drwydded ar sail diogelwch y cyhoedd.

Ystyriodd y pwyllgor fod y Gyrrwr wedi methu yn ei ddyletswydd gofal i'w deithwyr sy'n talu ffioedd. Ar ei gyfaddefiad ei hun, defnyddiodd y cerbyd i gario grwpiau o bobl ar noson allan ac i feysydd awyr.

Derbyniwyd bod y Gyrrwr wedi cyflwyno ei gerbyd ar gyfer prawf MOT ar 4 Ebrill 2016 ac ar hynny iddo fethu. Ar y pwynt hwn, nododd y pwyllgor fod hyn ynddo'i hun yn dangos nad oedd y gyrrwr wedi cynnal ei gerbyd i safon dderbyniol. Yn dilyn hynny, cafodd y Gyrrwr rywfaint o waith wedi'i wneud ar y cerbyd, a chyflwynodd un dderbynneg i'r pwyllgor dyddiedig 13 Ebrill 2016. Wrth archwilio, penderfynodd y pwyllgor nad oedd hyn wedi mynd i'r afael â phob un o'r materion a arweiniodd at y methiant MOT ar 4 Ebrill 2016. Cafodd y cerbyd ei ail-brofi wedi hynny ar 13 Ebrill 2016, lle bu iddo basio. Yna cafodd y cerbyd ei gyflwyno ar gyfer ei Brawf Cydymffurfio a Phrawf MOT yng Ngorsaf Brofi Ddynodedig y Cyngor. Ar y pwynt hwn methodd y cerbyd i basio'r ddau brawf, a nodwyd nifer o ddiffygion difrifol ar y cerbyd. O ganlyniad, cafodd trwydded y cerbyd ei wahardd ac ni allai'r Gyrrwr ei yrru fel Cerbyd Hacni na Cherbyd Hurio Preifat.

Cyflwynodd y Gyrrwr nifer o dderbynebau i'r pwyllgor, a ddangosodd ei fod wedi cael gwneud gwaith ar y cerbyd. O edrych yn agos ar y derbynebau hyn, roedd yn amlwg bod y gwaith hwn wedi cael ei wneud ar y cerbyd rhwng mis Gorffennaf

2015 a mis Rhagfyr 2015, rai misoedd lawer cyn iddo gael ei gyflwyno i'w brofi ym mis Ebrill 2016. Byddai nifer o'r materion a'r diffygion a restrir yn y Prawf MOT a'r Prawf Cydymffurfio, ym marn y pwyllgor, wedi bod yn weladwy ac amlwg i leygwr, heb sôn am yrrwr proffesiynol.

